Gwaith a ganiateir

Gwaith y gallwch ei wneud tra'n cael budd-daliadau oherwydd salwch neu anabledd

canolfanbydgwaith

Rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau



Canllaw yn unig yw'r daflen hon ac nid yw'n cwmpasu pob amgylchiad. Rydym wedi gwneud ein gorau i sicrhau bod y wybodaeth yn y daflen hon yn gywir ar y dyddiad ar gefn y daflen hon.

Beth yw 'gwaith a ganiateir'?

Mae gwaith a ganiateir yn waith y gallwch ei wneud os cewch fudd-daliadau am eich bod yn sâl neu'n anabl, megis:

- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
- Budd-dal Analluogrwydd, neu
- Credydau Yswiriant Gwladol.

Os ydych yn cael budd-dal arall am nad ydych yn iach i weithio, er enghraifft:

- Cymhorthdal Incwm
- Budd-dal Tai, neu
- Budd-dal Treth Cyngor

efallai y caiff eich budd-dal ei leihau neu ei atal os byddwch yn gwneud unrhyw fath o waith. Siaradwch ag ymgynghorydd y Ganolfan Byd Gwaith cyn dechrau gweithio.

Faint y gallaf ei ennill?

Mae pedwar math o waith a ganiateir os ydych yn cael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, Budd-dal Analluogrwydd, Lwfans Anabledd Difrifol neu gredydau Yswiriant Gwladol:

1 Gallwch ennill hyd at £20 yr wythnos os ydych yn cael un neu fwy o'r budd-daliadau a nodir uchod. Ni fydd hyn yn effeithio ar eich budd-daliadau.

Os ydych yn cael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth neu Fudd-dal Analluogrwydd:

2 Gallwch weithio llai nag 16 awr yr wythnos ac ennill dim mwy na £93.00 yr wythnos am hyd at 52 wythnos.

Os na allwch ddechrau gweithio 16 awr neu fwy yr wythnos ar ôl gwneud gwaith a ganiateir am 52 wythnos, bydd yn rhaid i chi aros 52 wythnos arall cyn i chi allu gwneud y math hwn o waith a ganiateir eto. Yn ystod yr amser hwn, gallwch barhau i weithio - ond ni allwch ennill mwy nag £20 yr wythnos.

3 Gallwch weithio cymaint o oriau ag y dymunwch, ar yr amod na fyddwch yn ennill mwy na £93.00 yr wythnos, os cewch eich goruchwylio gan rywun a gyflogir gan awdurdod cyhoeddus neu leol, neu grŵp gwirfoddol, a:

- mai eu cyfrifoldeb hwy yw trefnu gwaith i bobl sâl ac anabl
- maent yn rhoi help rheolaidd i chi er mwyn i chi allu gwneud eich swydd, neu fel rhan o raglen driniaeth mewn ysbyty, a
- bod y gwaith yn rhan o raglen driniaeth a'ch bod yn ei wneud o dan oruchwyliaeth feddygol tra'ch bod yn glaf mewnol neu'n glaf allanol ysbyty neu sefydliad tebyg.

  Er enghraifft, efallai rydych yn gweithio yn y gymuned, mewn gweithdy gwarchodol, neu fel rhan o raglen driniaeth mewn ysbyty.

  Dylech gael o leiaf yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol am unrhyw waith y byddwch yn ei wneud.

4 Nid oes angen i rai pobl â chyflyrau meddygol difrifol gael archwiliad meddygol i gael eu hasesu fel pobl nad ydynt yn iach i weithio. Os yw hyn yn berthnasol i chi, gallwch ddewis am faint rydych yn ei weithio, ond mae'n rhaid iddo fod yn llai nag 16 awr yr wythnos ac ni allwch ennill mwy na £93.00.

Sut mae gwaith a ganiateir yn effeithio ar eich budd-daliadau eraill

Gall ennill mwy na £5 yr wythnos gan waith a ganiateir effeithio ar faint o Gymhorthdal Incwm, Budd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor rydych yn eu cael.

Os ydych yn cael Budd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor, mae'n rhaid i chi roi gwybod i'ch cyngor lleol eich bod yn ystyried dechrau gwaith a ganiateir.

I gysylltu â'ch cyngor lleol ewch i:
www.direct.gov.uk/cy
neu gallwch weld eu manylion yn y llyfr ffôn.

Beth sy'n rhaid i mi ei wneud os hoffwn i wneud gwaith a ganiateir?

Os ydych yn ystyried gwneud unrhyw waith, pa un a yw'n waith â thâl neu'n ddi-dâl, mae'n rhaid i chi gysylltu â'r Ganolfan Byd Gwaith bob amser i sicrhau bod y gwaith yn bodloni'r amodau ar gyfer gwaith a ganiateir. Os byddwch yn gwneud gwaith nad yw'n bodloni'r amodau, gallech golli eich budd-dal.

Efallai y bydd angen i ni hefyd newid faint o Gymhorthdal Incwm rydych yn ei gael.

Os na allwch ddweud wrthym cyn i chi ddechrau gweithio, mae'n rhaid i chi ffonio neu ysgrifennu atom cyn gynted â phosibl.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.canolfanbydgwaith.gov.uk neu gallwch weld y manylion yn eich llyfr ffôn.

www.canolfanbydgwaith.gov.uk

Mae'r Ganolfan Byd Gwaith yn ymrwymedig i gymhwyso egwyddor cyfle cyfartal yn ei rhaglenni a'i gwasanaethau.

Cynhyrchwyd gan y Ganolfan Byd Gwaith,
rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau

ISBN 978-1-84763-019-3
DWP1019W | f3.0 (Hydref 2009) | v3.0 (October 2009)